CYNLLUN GRANT CYMUNEDOL CYNGOR CYMUNED CYNWYL ELFED

Mae gan Gyngor Cymuned Cynwyl Elfed Gynllun Grantiau sy'n cynnig cymorth ariannol i'r gymuned. Dyrennir y grantiau yn unol â deddfwriaeth berthnasol gan gynnwys Deddf Llywodraeth Leol 1972 (adrannau 137 - 142) a PŴer Lles Cyffredinol (adran 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000). Pennir swm yr arian sydd ar gael yn flynyddol yng nghyllideb y Cyngor.

Bydd y Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i brosiectau a cheisiadau sy'n helpu i gyflawni'r saith nod lles yn Neddf Lles y Dyfodol, mewn geiriau eraill:

Cymru llewyrchus
Cymru gydnerth
Cymru iachach
Cymru sy'n fwy cyfartal
Cymru o gymunedau cydlynus
Cymru â ddiwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynu
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Sut i wneud cais -

- Dylid cwblhau ffurflen gais, ynghyd â'r fantolen ddiweddaraf a'r cyfrifon blynyddol, dylai'r rhain gael eu hanfon at y Clerc erbyn y dyddiad cau a nodir ar y ffurflen gais

- Fel arfer bydd y Cyngor yn ystyried ceisiadau unwaith yn ystod y flwyddyn, fel arfer ym mis Chwefror, er y gallai fod achlysuron pan fydd natur y cais yn golygu bod angen cymryd camau yn gynt.

- Fel arfer ni fydd y Cyngor yn darparu cymorth grant yn uniongyrchol i unigolion.

- Rhoddir blaenoriaeth i sefydliadau sy'n elwa'n uniongyrchol i'r ardaloedd a'r pobl sy'n byw yn yr ardaloedd y mae Cyngor Cymuned Cynwyl Elfed yn eu cwmpasu.